# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**20.12.24**




## Nadolig Llawen! ✶ ⁂ ✶ Merry Christmas!

Wrth i ni gyrraedd diwedd Tymor yr Hydref a gwyliau'r Nadolig, hoffwn nodi fy niolch i chi am y cydweithio agos a fu gyda ni gydol y tymor hwn eto. O fod yn bartneriaid pwysig yn addysg eich plant, i gefnogi digwyddiadau cymunedol a Nadoligaidd, diolch am bob peth. Mae'r cydweithio agos hwn yn gwneud gwahaniaeth allweddol i les a datblygiad pob un o'n disgyblion. **Diolch hefyd i'r staff** am eu gwaith diflino rhagorol – rydym mor ffodus o'n staff talentog a gofalgar.

Mae wythnos ola'r tymor wedi bod yn wythnos o hwyl ac o fwynhau theatr, drama ac – wrth gwrs – Panto! Cafodd y plant gyfle hefyd i rannu eu tasgau gwaith cartref gydag eraill a hyfryd oedd gweld eu balchder a'u creadigrwydd yn y gwaith hwnnw.

Mae heddiw yn amser i ffarwelio am gyfnod â Mrs Caryl Jones sydd yn cychwyn ar gyfnod mamolaeth. Danfonwn pob dymuniad da i Mrs Jones a'r teulu dros y misoedd nesaf. Bydd Mrs Bikram yn gofalu am ddosbarth 5C o Fis Ionawr. Bydd ambell newid arall i amserlennu staff hefyd wrth i ni ail-agor meithrin y bore ym mis Ionawr. Rydym yn ffodus iawn o allu manteisio ar brofiad Ms Starr a fydd yn treulio amser yn wythnosol yn nosbarthiadau 4C a 6C.

Ar ran staff a Llywodraethwyr yr ysgol, dyma ddymuno Nadolig Llawen iawn i chi gyd. Gobeithio y caiff bob un ohonoch amser i fwynhau dros y gwyliau ac i wneud y pethe pwysig gyda theulu a ffrindiau. Cofiwch fod diwrnod cynta'r tymor yn ddiwrnod HMS i staff felly fe welwn ni bawb yn ôl ar Ddydd Mawrth, Ionawr 7fed.
Nadolig Llawen i chi gyd!

\- - - - - - -

As we reach the end of the Autumn Term and the Christmas holidays, I would like to note my thanks to you for your support and close cooperation once again. From being important partners in your children's education, to supporting our community and festive events, diolch. Being able to work closely with you makes a critical difference to the wellbeing and development of all of our pupils. **Diolch also to the staff** for their superb, tireless work – we are so lucky to have such talented and caring staff.

The final week of term has been a week of fun and enjoyment of theatre, drama and – of course – Panto! The children also had opportunities to share their homework tasks with others and it was lovely to see their pride and creativity in that work.

Today, we say goodbye for a while to Mrs Caryl Jones who is beginning her maternity leave. We send our good wishes to Mrs Jones and her family for the months to come. Mrs Bikram will take care of 5C in January. We will also see some other staff changes as we re-open morning nursery in January and are fortunate to be able to welcome the experience of Ms Starr who will spend time each week in classes 4C and 6C.

On behalf of the school staff and Governors, we wish you all a very Happy Christmas. I hope you all have an enjoyable holiday and are able to do the important things with family and friends. Don't forget that the first day of term is an INSET day for staff so we'll see everyone back on Tuesday, January 7th. Nadolig Llawen i chi gyd!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**6.1.25**
Diwrnod HMS i staff
INSET day for staff

**7.1.25**
Diwrnod cynta'r plant
First day back for Children

**31.1.25**
Gwasanaeth Dosbarth 3C
3C Class Assembly

**Chwefror 6-7**
**February 6-7**
Taith Preswyl B4
(Urdd Bae Caerdydd)
*Year 4 Residential*
*(Urdd Centre, Cardiff Bay)*

---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.

Our live calendar is available to download on our school website's

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week

Llongyfarchiadau i bawb a deithiodd ar y Bws Beics y tymor hwn!

Congratulations to all who travelled on the Bike Bus this term!





## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

## Merry Christmas and a Happy New year!